THE COUNTY COUNCIL OF THE CITY & COUNTY OF CARDIFF

The County Council of the City & County of Cardiff met at County Hall, Cardiff on Dydd Iau, 26 Mai 2016 to transact the business set out in the Council summons dated Dydd Gwener, 20 Mai 2016.

Present: County Councillor Walsh (Lord Mayor)

County Councillors Ali Ahmed, Manzoor Ahmed, Dilwar Ali, Bale, Bowden, Boyle, Bradbury, Bridges, Burfoot, Clark, Ralph Cook, Richard Cook, Cowan, De'Ath, Derbyshire, Elsmore, Ford, Goddard, Gordon, Govier, Graham, Groves, Hill-John, Hinchey, Holden, Howells, Hudson, Hunt, Hyde, Keith Jones, Margaret Jones, Joyce, Kelloway, Knight, Lent, Lloyd, Lomax, Magill, Marshall, McEvoy, McGarry, McKerlich, Merry, Michael, Mitchell, Morgan, Murphy, Parry, Patel, Phillips, David Rees, Robson, Sanders, Simmons, Stubbs, Thomas, Ben Thomas, Graham Thomas, Lynda Thorne, Walker, Weaver, White, Wild, Darren Williams a/ac Woodman

1 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Aubrey, Carter, Chaundy, Davies-Warner, Davis, Evans, Goodway, Javed, a Dianne Rees.

2 : DATGAN BUDDIANNAU

Atgoffodd yr Arglwydd Faer yr Aelodau fod ganddynt gyfrifoldeb dan Erthygl 10 Cod Ymddygiad yr Aelodau i ddatgan unrhyw fudd ac i gwblhau ffurflenni Budd Personol wrth i'r eitem fusnes berthnasol agor.

Doedd dim datganiad budd ar gyfer y cyfarfod hwn.

3 : ETHOL ARGLWYDD FAER Y CYNGOR AR GYFER 2016/17

Yn ei gyfarfod ar 24 Mawrth 2016, cymeradwyodd y Cyngor enwebu'r Cynghorydd Sir Monica Walsh yn Arglwydd Faer drwy Etholiad.

Enwebwyd hi'n ffurfiol gan y Cynghorydd Sir Bale a chefnogodd y Cynghorydd Sir McKerlich.

PENDERFYNWYD yr etholir y Cynghorydd Sir Monica Walsh yn Arglwydd Faer dros Gyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn 2016/17.

*Arwisgodd y Cynghorydd David Walker, Gwir Anrhydeddus Arglwydd Faer Dinas a Sir Caerdydd, y Cynghorydd Monica Walsh â chadwyni'r swyddfa a'r fodrwy ddinesig.*

*(Bu i'r aelodau gymeradwyo)*

*Bu'n bleser i'r Arglwydd Faer, y Cynghorydd Monica Walsh, arwisgo'r Arglwydd Faeres, Mrs Maria Harvey â'i chadwyn swydd.*

4 : CYHOEDDIADAU'R ARGLWYDD FAER

Bu i'r Arglwydd Faer yn annerch y Cyngor Llawn a mynegi'r anrhydedd a phleser iddi o ddod y 112fed Arglwydd Faer. Diolchodd i Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Phil Bale a'r Cynghorydd Rod McKerlich am eu geiriau caredig; i'r Cyngor am dderbyn ei henwebu; ei chyfeillion a theulu a phobl Trowbridge a Llaneirwg am eu cefnogaeth a hefyd ei hamryw gydweithwyr yn y Cyngor.

Derbyniodd yr Arglwydd Faer ei swydd fel prif ddinesydd gyda phleser fawr, a chan wybod a hyderu y caiff gefnogaeth yr Arglwydd Faeres, Mrs Maria Harvey; y Dirprwy Arglwydd Faer, Georgina Phillips a'i chymar, Len Phillips, ei theulu, ei chyfeillion a'i chydweithwyr, dywedodd yr Arglwydd Faer y gwnâi ei gorau i ateb gofynion yr anrhydedd a dderbyniodd ac i ymgymryd â'r her sydd i ddod.

Bu i'r Arglwydd Faer longyfarch y Cynghorydd Georgina Phillips ar ei harwisgiad fel Dirprwy Arglwydd Faer a fydd yn derbyn cefnogaeth alluog ei chymar, Len Phillips.

Cyhoeddodd yr Arglwydd Faer mai'r elusen y byddai'n ei henwebu ar gyfer y flwyddyn i ddod oedd Ymchwil Cancr Cymru. Mae Ymchwil Cancr Cymru'n gwneud gwaith ymchwil blaengar ar gancr, yr hyn sy'n ei achosi a'r driniaeth ar ei gyfer, a defnyddir yr holl arian a gasglant yng Nghymru. Roedd yr Arglwydd Faer yn edrych ymlaen at weithio gyda chynrychiolwyr yr elusen dros y misoedd a ddaw, a gofynnodd i'r Aelodau ddangos eu cefnogaeth drwy fynd i'r digwyddiadau a drefnir trwy'r flwyddyn faerol.

Roedd yr Arglwydd Faer yn edrych ymlaen at flwyddyn gyffrous a chofiadwy ac roedd hi'n mwynhau ystyried yr her a'i gosodwyd a'r pwysigrwydd iddi sicrhau parhau i bortreadu prifddinas Cymru a'i holl rinweddau yn y ffordd orau bosib ar gyfer unrhyw un y mae hi'n dod i gysylltiad ag ef.

I gloi, bu i'r Arglwydd Faer ddiolch i'r Cynghorydd David Walker a'i wraig Jan ar ran yr holl gydweithwyr, pobl Caerdydd a'r rhai sy'n manteisio o lwyddiant arbennig eu helusen eleni am fod yn llysgenhadon gwych dros y brifddinas. Dymunodd yr Arglwydd Faer ddyfodol hapus ac iach i Jan.

*(Cafwyd cymeradwyaeth gan yr Aelodau)*

5 : ETHOL DIRPRWY ARGLWYDD FAER Y CYNGOR AR GYFER 2016/17

Yn ei gyfarfod ar 24 Mawrth 2016, cymeradwyodd y Cyngor enwebu'r Cynghorydd Georgina Phillips yn Ddirprwy Arglwydd Faer drwy Etholiad.

Enwebwyd hi'n ffurfiol gan y Cynghorydd Sir, Judith Woodman, a chefnogodd y Cynghorydd Sir, Susan Lent.

*Bu i'r Arglwydd Faer arwisgo Dirprwy Arglwydd Faer Dinas a Sir Caerdydd gyda chadwyni'r swydd.*

*Bu i'r Arglwydd Faer arwisgo'r Dirprwy Arglwydd Faer, Mr Len Philips, â'i gadwyn swydd.*

*Gwahoddodd y Prif Weithredwr yr Arglwydd Faer a'r Dirprwy Arglwydd Faer i arwyddo'r Datganiadau Derbyn.*

*(Bu i'r Aelodau ddangos eu gwerthfawrogiad yn y ffordd addas).*

6 : PLEIDLAIS O DDIOLCH

Traddododd yr Arweinydd air o ddiolch i'r cyn-Arglwydd Faer, y Cynghorydd David Walker a'r Arglwydd Faeres, Jan Walker, am eu cyfraniad aruthrol a'u gwaith fel llysgenhadon dros Ddinas Caerdydd a phrifddinas Cymru ac am fwrw ati â'u swyddi gyda hiwmor da a charedigrwydd, ac yn arbennig am roi tân ym moliau llawer o ddinasyddion a phobl fusnes Caerdydd dros gefnogi Elusen yr Arglwydd Faer, Ymddiriedolaeth Cancr Felindre ac ymgyrch Caerdydd yn Uno yn Erbyn Cancr.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cynghorydd Dilwar Ali am ei gefnogaeth ardderchog fel Dirprwy Arglwydd Faer dros y flwyddyn.

*Ar ran Dinas Caerdydd, cyflwynodd yr Arweinydd fathodynnau swydd i'r Cynghorydd Walker ac i Jan Walker.*

Gwahoddwyd pob un o Arweinwyr Grwpiau Plaid neu gynrychiolydd plaid i siarad.

Bu i'r Cynghorydd Woodman, Arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol; y Cynghorydd Lyn Hudson o'r Grŵp Ceidwadol a'r Cynghorydd McEvoy, Arweinydd Grŵp Plaid Cymru ddiolch i'r cyn-Arglwydd Faer am flwyddyn arbennig yn ei swydd ac am y gwaith a wnaeth o ran hyrwyddo rôl yr Arglwydd Faer yn y ddinas. Diolchent iddo am ei gyfraniad at broses y Cyngor fel Cadeirydd y Cyngor ac am ei waith diwyd ef a Jan wrth gefnogi ystod eang o ddigwyddiadau ac am godi swm o arian mwy nag erioed ar gyfer eu helusen enwebedig. Diolchwyd hefyd i'r Dirprwy Arglwydd Faer, y Cynghorydd Dilwar Ali a'i wraig am eu cefnogaeth a'u gwaith caled dros y flwyddyn ddiwethaf.

7 : GAIR O DDIOLCH GAN Y CYN-ARGLWYDD FAER

Mynegodd y Cynghorydd David Walker gymaint o fraint ac anrhydedd y bu i wasanaethu fel Arglwydd Faer Caerdydd dros y 12 mis diwethaf. Dywedodd fod ganddo ef a'r Cynghorydd Diwar Ali weledigaeth o'r dechrau un o alw ar ddinasyddion Caerdydd a'u hannog i gysylltu â'r Arglwydd Faer. Canlyniad hyn oedd cyfarfodydd cymunedol rheolaidd; cyfnewidiadau a chyfarfodydd cynhyrchiol gydag aelodau'r cymunedau Mwslimaidd, Hindŵ, Iddewig, Affro-Garibïaidd a chymunedau eraill yn y brifddinas. Arweiniodd hyn at gefnogaeth sylweddol i Elusen yr Arglwydd Faer.

Trafododd y Cynghorydd Walker y Plasty gwych a dywedodd y dylai fod yn fwy hygyrch i ddinasyddion Caerdydd ymweld ag ef a dysgu am bwysigrwydd rôl yr Arglwydd Faer, mewn

cyfarfodydd, wrth gefnogi digwyddiadau, gweinyddiaeth ac wrth godi arian ar gyfer elusen. Roedd y Cynghorydd Walker yn awyddus i'r swydd beidio â cholli’r statws hwn.

Bu i'r Arglwydd Faer fynegi ei bleser wrth fynd i amrywiaeth eang o ddigwyddiadau, yn cynnwys un o'r uchafbwyntiau: - Seremoni Rhyddid y Ddinas ar gyfer y Gatrawd Frenhinol Gymreig ar ran y Cynghorwyr a dinasyddion Caerdydd.

Siaradodd yr Arglwydd Faer am yr amrywiaeth o bwysigion ac ymwelwyr a ddaeth i'r Plasty o bob cenedl a dinas, pawb oll yn awyddus i ymweld â Chaerdydd a Chymru a phrofi ein lletygarwch cynnes. Siaradodd am ei waith gyda'r dinasoedd mae Caerdydd wedi ei gefeillio â nhw: Nantes a Stuttgart, a’r cysylltiadau diwylliannol ac economaidd cryf y maen nhw wedi eu ffurfio dros y blynyddoedd.

Yn ogystal, roedd y Cynghorydd Walker yn falch o gynrychioli’r ddinas ar Sul y Cofio, mewn digwyddiadau coffau'r Rhyfeloedd Byd a'r Holocost, a digwyddiadau teimladwy eraill er cof am ddigwyddiadau erchyll mwy diweddar, megis yr ymosodiad ym Mharis.

Bu’r Cynghorydd Walker a Jan hefyd yn ymweld â llawer o lochesi ar gyfer y digartref, megis SOCAS, Caffi H yng Nghanolfan Huggard, sy’n cynnig gwasanaeth gwerthfawr ardderchog, a buont hefyd yn cynorthwyo grwpiau gofalwyr a menter Chwaraeon Yn Erbyn Hiliaeth a grwpiau sgowtiaid a geidiau’r Arglwydd Faer.

Mae’n bwysig ac yn angenrheidiol i’r Seremonïau  Dinasyddiaeth fod yn gofiadwy ac yn werth chweil ar gyfer y rhai a fu’n rhan a bu i’r Dirprwy Arglwydd Faer gynnal llawer o seremonïau felly yn ystod y flwyddyn.

Bu i’r Cynghorydd Walker amlygu pwysigrwydd rôl yr Arglwydd Faer mewn perthynas â Phrifysgol Caerdydd, mewn seremonïau graddio, gydag ymwelwyr o dramor sy’n dod i'r brifysgol.

Disgrifiodd yr Arglwydd Faer y gwaith yn gysylltiedig â’i ymgyrch dros ei elusen a gwaith y South Wales Echo yn ymgyrch Caerdydd Yn Erbyn Cancr a chasglu ei darged o £100,000. Bu iddo sôn bod cynlluniau wedi eu gwireddu ers mis Ionawr 2016 o ran menter i.Can gydag ysgolion. Diolchodd i’r Cynghorydd Dilwar Ali am ei ymweliadau â Mosgiau Caerdydd ar gyfer gweddi dydd Gwener; i fab y Cynghorydd Dilwar Ali am godi dros £500, ac i’r Cinio Gŵyl Dewi, a gobeithio y gall hwnnw ddod yn achlysur blynyddol.  Roedd £180,000 wedi ei godi erbyn y cyfarfod ac roedd mwy o sieciau i’w prosesu.

I gloi, bu i'r Cynghorydd Walker ddiolch i'r tîm yn y protocol, i'r Dirprwy Arglwydd Faer, y Cynghorydd Dilwar Ali a’i wraig ac i’w wraig yntau, Jan, am ei holl gefnogaeth.

*(Bu i'r Aelodau ddangos eu gwerthfawrogiad yn y ffordd addas).*

## 8 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 24 Mawrth 2016 fel cynrychioliad cywir ac fe’u harwyddwyd gan y Cadeirydd, ar yr amod y gwnaed newid bychan i eiriad Datganiadau Elusennol yr Arglwydd Faer (Rhif 165).

## 9 : YMRWYMIAD CAERDYDD I GYNGHORWYR

Ar 1 Gorffennaf 2004, cymeradwyodd y Cyngor Ymrwymiad Caerdydd i gynnig cyfle i Aelodau ymrwymo'n gyhoeddus i ddefnyddio eu cyfnod yn y swydd er mwyn gweithio ar ran y Cyngor, y Ddinas a'i dinasyddion ac ymrwymo i'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan y Cyngor.

Yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 21 Mai 2015, gwnaed cais bod rôl bwysig y Cynghorwyr fel Rhieni Corfforaethol hefyd yn cael ei ymgorffori fel rhan annatod o Ymrwymiad Caerdydd. Atodwyd addasiad drafft i Ymrwymiad Caerdydd er mwyn ychwanegu hyn.

Gofynnwyd i'r Aelodau Etholedig gytuno ar yr addasiad a chadarnhau eu hymrwymiad i Ymrwymiad Caerdydd yn y cyfarfod.

Cynigodd y Cynghorydd De'Ath yr adroddiad ac ategwyd hynny gan y Cynghorydd Lent.

Croesawodd yr Aelodau'r egwyddor ychwanegol, sef, eu hymrwymiad i ddiogelu a hyrwyddo cyfleoedd bywyd plant mewn gofal, a'u gofal wrth ymadael â'u cyfrifoldebau fel Rhiant Corfforaethol.

PENDERFYNWYD

1. cymeradwyo Ymrwymiad Caerdydd diwygiedig fel y'i cyflwynwyd;

2. Bod Aelodau'n cadarnhau eu hymrwymiad ac yn arwyddo Ymrwymiad Caerdydd diwygiedig yn ffurfiol.

10 : CYHOEDDIADAU'R ARGLWYDD FAER

Roedd yr Arglwydd Faer yn falch o wneud yr addasiadau canlynol: -

Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd McEvoy ar ei etholiad diweddar i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel Aelod o'r Cynulliad dros Ranbarth Canol De Cymru.

Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Eleanor Sanders a ddaeth yn fam-gu am y tro cyntaf ym mis Ebrill. Rydym yn llongyfarch ei merch a'r teulu ar enedigaeth merch fach ar 19 Ebrill 2016, ac y dymuno'r gorau iddynt.

Diolchiadau a Gwobrau

Tyngu Llw Time to Change Wales - Time to Change Wales yw'r ymgyrch genedlaethol gyntaf i ddod â'r stigma ynghlwm wrth iechyd meddwl i ben yng Nghymru. Cyngor Dinas Caerdydd yw un o'r sefydliadau diweddaraf i dyngu'r llw.

Datganiad cyhoeddus yw Time to Change Wales sy'n dweud ein bod am weithredu er mwyn mynd i'r afael â'r stigma ac anffafriaeth ynghlwm ag iechyd meddwl. Mae tair prif elusen iechyd meddwl yn arwain yr ymgyrch mewn partneriaeth: Gofal, Hafal a Mind.

Cafwyd y digwyddiad arwyddo'r addewid ddydd Iau 26 Mai 2016 yn Neuadd y Sir lle arwyddodd y Prif Weithredwr, Paul Orders a Chyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau,

Christine Salter, yr addewid yn gyhoeddus mewn digwyddiad arbennig gyda staff ar draws y sefydliad.

Felothon Pro Road – Cynhaliwyd Felothon Cymru ddydd Sul 22 Mai 2016, ac roedd yn enghraifft arall o ragoriaeth yn y byd chwaraeon ar gyfer y rhanbarth. Bu dros 18,000 yn rhan o'r ras 140 cilomedr o Gaerdydd trwy ranbarthau de-ddwyrain Cymru ac yn ôl i orffen yng nghalon Caerdydd.

Ymhlith y beicwyr, roedd Phil Clarke, saer maen ar gyfer Priffyrdd Gweithrediadau'r Ddinas, yn cymryd rhan er mwyn codi ymwybyddiaeth am Ofal Cancr y Fron.

Roedd gan Phil resymau personol dros gystadlu yn y ras dros achos mor deilwng: roedd ei fam yn dioddef o gancr y fron 25 mlynedd yn ôl a chafwyd bod yr afiechyd arno yntau bedair blynedd yn ôl. Penderfynodd gymryd rhan yn y Felothon pan ofynnodd yr elusen iddo helpu i godi ymwybyddiaeth am gancr y fron, yn arbennig gan ddynion.

Cwblhaodd Phil y ras 85 milltir o hyd mewn amser arbennig, sef 6 awr, a chododd £500 swmpus dros yr elusen. Am lwyddiant ardderchog!

Llongyfarchiadau i unrhyw Aelodau Etholedig neu staff eraill a gwblhaodd y cwrs.

Sioe Flodau Ardderchog i'r Gymdeithas Arddwriaeth Frenhinol - Gofynnodd Cymdeithas Arddwriaethol Frenhinol Caerdydd a Chyngor Dinas a Sir Caerdydd i ymgeiswyr ddwyn ysbrydoliaeth gan fyd ffantastig Roald Dahl er mwyn creu berfâu ar gyfer y gystadleuaeth ferfa flynyddol i ysgolion, er mwyn dathlu canmlwyddiant genedigaeth yr awdur byd-enwog.

Roedd pob ymgais yn werth chweil, ond llongyfarchiadau mawr i'r enillwyr:

1af – Ysgol Gynradd Coed Glas
2il – Ysgol Gynradd Moorland
3ydd – Ysgol Gynradd Marlborough Road

11 : CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD

Bu i'r Arweinydd annerch y Cyngor ar destun y llwyddiannau a'r cynnydd a wnaed dros y 12 mis diwethaf, yn arbennig o ran blaenoriaethau'r Cyngor a'r cynnydd dros gyrhaeddiad addysgol; datblygu economaidd a rhoi cymorth i'r sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.

Trafododd yr Arweinydd y llwyddiannau'n fanylach a diolchodd i Gabinet y Cyngor ac i Aelodau Pwyllgor Craffu'r Cyngor am eu hymrwymiad ac i'r holl Aelodau am eu gwaith diwyd wrth gynrychioli, cefnogi a hyrwyddo prif faterion ar gyfer cymunedau dros y flwyddyn ddiwethaf.

Daeth yr Arweinydd â'r gwaith o sicrhau'r Fargen Ddinesig i'r amlwg yn ogystal â chyfleoedd cyffrous ar gyfer datblygu'r ddinas, ei seilwaith a'i rhwydweithiau a fydd yn gwella enw da'r brifddinas, yn atynnu ymwelwyr, busnesau ac ystod eang o ddigwyddiadau, yn cynnwys digwyddiadau chwaraeon rhyngwladol megis gêm derfynol Cynghrair y Pencampwyr, yn ogystal â'r amrywiaeth ddiwylliannol sydd yng

Nghaerdydd. Mae datblygu'r Sgwâr Canolog yn bwrw ymlaen a gwelwyd cynnydd yn y diddordeb mewn busnes a symud y pencadlys i Gaerdydd. Mae gan Gaerdydd sector Prifysgol fyw iawn, sy'n cynorthwyo ac yn gwella'r cysylltiadau cenedlaethol a rhyngwladol y mae'r ddinas eisoes wedi eu creu.

Bu i'r Arweinydd amlygu'r heriau parhaus y mae'r Cyngor yn eu hwynebu a dywedodd fod gwaith yn mynd rhagddo gyda Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau'r cytundeb gorau.

12 : ADOLYGU CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL; SEFYDLU PWYLLGORAU, EU MAINT, EU CYLCH GORCHWYL A DYRANIAD SEDDI ARNYNT.

Mae'r Cyfansoddiad yn darparu bod yn rhaid i'r Cyngor benderfynu yn y Cyfarfod Blynyddol pa newidiadau fydd i'w bwyllgorau ar gyfer y flwyddyn ariannol o ran maint y pwyllgorau, eu cylchoedd gorchwyl a nifer y seddau a ddyrennir i'r grwpiau gwleidyddol yn unol â'r rheolau cydbwyso gwleidyddol.

Cynigodd y Cynghorydd De'Ath yr argymhellion ac fe'u hategwyd gan y Cynghorydd Hunt.

PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn

(1) cymeradwyo sefydlu strwythur Pwyllgorau'r Cyngor a maint a chylch gorchwyl pob Pwyllgor ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17 fel y manylir yn atodiad yr adroddiad.

(2) cymeradwyo'r 'trefniadau amgen' ar gyfer dyrannu seddau ar gyfer pob Pwyllgor fel y nodir yn Atodiad B ac y cytunwyd arnynt gan Chwipiau'r Grwpiau Plaid.

13 : ENWEBU AELODAU I WASANAETHU AR BOB PWYLLGOR A SEFYDLIR AC ETHOL CADEIRYDD A DIRPRWY GADEIRYDD.

Yn dilyn sefydlu'r Pwyllgorau a dyrannu seddau pob Pwyllgor yn unol â'r gofyn i sicrhau cydbwysedd gwleidyddol, roedd angen i'r Cyngor wireddu gofynion y grwpiau gwleidyddol o ran yr unigolion a fyddai'n cynrychioli'r grwpiau ar bob Pwyllgor.

Derbyniodd y Cyngor enwebiadau gan Gadeiryddion y Pwyllgorau, a'r Dirprwyon ac Aelodau os oedd angen hynny; mae manylion hyn ar daflen yr addasiadau.

Cynigodd y Cynghorydd De'Ath yr argymhellion ac fe'u hategwyd gan y Cynghorydd Hunt.

PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn

(1) Derbyn ac yn cymeradwyo'r enwebiadau gan y grwpiau gwleidyddol ar gyfer y seddau a ddyrennir i bob grŵp fel y cytunwyd dan eitem 10 ar yr Agenda;

(2) Gofyn i'r Swyddog Monitro Dros Dro adrodd manylion yr holl benodiadau i'r Pwyllgorau wrth y Cyngor yn ei gyfarfod nesaf, er gwybodaeth, a gofyn iddo ystyried unrhyw enwebiadau ychwanegol neu newidiadau ar ôl y cyfarfod hwn;

(3) cymeradwyo penodi Cadeiryddion Craffu fel y nodir ym mharagraff 7, Tabl B yr adroddiad;

(4) penodi Cadeiryddion Craffu yn ôl gofynion y Grwpiau Gwleidyddol, yn dibynnu ar gymeradwyo argymhelliad 4) ac yn unol â Rhan 6 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, fel a ganlyn: -

| Committee | Cadeirydd |
|---|---|
| Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc | Y Cynghorydd Richard Cook |
| Pwyllgor Craffu Cymuned a Gwasanaethau Oedolion | Y Cynghorydd McGarry |
| Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant | Y Cynghorydd McKerlich |
| Pwyllgor Craffu Amgylcheddol | Y Cynghorydd Paul Mitchell |
| Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad | Y Cynghorydd Nigel Howells |

(5) ethol y Cadeiryddion a'r Is Gadeiryddion canlynol:

| Committee | Cadeirydd |
|---|---|
| Pwyllgor Cynllunio | Y Cynghorydd Michael (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Manzoor Ahmed (Is Gadeirydd) |
| Pwyllgor Trwyddedu | Y Cynghorydd Parry (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Murphy (Is Gadeirydd) |
| Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd | Y Cynghorydd Parry (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Murphy (Is Gadeirydd) |
| Pwyllgor y Cyfansoddiad | Y Cynghorydd De'Ath |
| Pwyllgor Amodau Cyflogaeth | Y Cynghorydd Hinchey |
| Pwyllgor Apeliadau'r Cyngor | Y Cynghorydd Lent |

| | |
|---|---|
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | Y Cynghorydd Clark |

*Penodir Cadeiryddion y Pwyllgor Archwilio a Phwyllgor Safonau a Moeseg gan y Pwyllgorau eu hunain.*

*Mae'r Pwyllgor Rhianta Corfforaethol yn penodi ei Gadeirydd ei hun.*

*Penodir Cadeiryddion y Pwyllgorau Penodi a Phwyllgorau Disgyblaeth ac Apeliadau fel bo angen.*

14 : ENWEBU AELODAU I WASANAETHU AR GYRFF ALLANOL.

Mae'r Cyfansoddiad yn darparu bod y Cyngor, yn ei Gyfarfodydd Blynyddol, yn derbyn enwebiadau ac yn penodi Aelodau fel bo angen, er mwyn iddynt wasanaethu fel cynrychiolwyr y Cyngor mewn cyrff allanol. Gwahoddwyd enwebiadau.

Cynigodd y Cynghorydd De'Ath yr argymhellion ac fe'u hategwyd gan y Cynghorydd Hunt.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r enwebiadau canlynol ar gyfer cyrff allanol:

- Bws Caerdydd: - Y Cynghorwyr Hunt, Lomax, Simmons, Benjamin Thomas ac White (Llafur); y Cynghorydd Aubrey (Rhyddfrydwyr Democrataidd) a'r Cynghorydd Robson (Ceidwadwyr);
- Cynulliad Cyffredinol Cymdeithas Llywodraeth Leol - y Cynghorydd Bale (Arweinydd) a'r Cynghorydd Elsmore (Llafur); y Cynghorydd Howells (Rhyddfrydwyr Democrataidd) a'r Cynghorydd McKerlich (Ceidwadwyr);
- Awdurdod Tân De Cymru – Y Cynghorwyr Diwar Ali, Javed a Phillips (Llafur); y Cynghorydd Hyde (Democratiaid Rhyddfrydol a'r Cynghorydd McKerlich (Ceidwadwyr);
- Panel Heddlu De Cymru a Throsedd – Y Cynghorwyr De'Ath a Lloyd;
- Cyngor CLILC – y Cynghorwyr Bale, Bradbury, De'Ath, Elsmore, Hinchey, Lent a Patel.
- Pwyllgor Cydlynu CLILC - y Cynghorydd Bale

15 : PENODI LLYWODRAETHWYR AWDURDOD LLEOL I GYRFF LLYWODRAETHU YSGOLION

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod Panel Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol wedi cyfarfod ar 19 Mai 2016 er mwyn gwneud argymhellion i'w cymeradwyo gan y Cyngor Llawn.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r penodiadau canlynol i Lywodraethwyr Ysgol yr Awdurdod Lleol: -

(a) Swyddi Gwag Presennol ar gyfer Llywodraethwyr Ysgol

| **Ysgol** | **Ward** | **Dechrau'r Swydd** | **Cymeradwyo'r Cais** |
|---|---|---|---|

| **Ysgol** | **Ward** | **Dechrau'r Swydd** | **Cymeradwyo'r Cais** |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Baden Powell | Sblot | 02/03/2016 | Tony Powell |
| Ysgol Uwchradd Caerdydd | Cyncoed | 30/04/2016 | Miriam Norton |
| Ysgol Gynradd Creigiau | Creigiau | 08/07/2015 | Elizabeth Lewis |
| Ysgol Uwchradd y Dwyrain | Tredelerch | 17/03/2016 | Paul Gorin |
| Canolfan Blant Trelái a Chaerau | Trelái | 23/06/2015 | |
| Ysgol Gynradd Gabalfa | Ystum Taf | 09/01/2016<br>22/04/2016 | Richard Norton |
| Ysgol Gynradd Glan yr Afon | Llanrhymni | 13/10/2015 | |
| Ysgol Gynradd Glyncoed | Pentwyn | 24/09/2015 | |
| Ysgol Gynradd Gwaelod-y-Garth | Pentyrch | 14/03/2016 | |
| Ysgol Gynradd Howardian | Pen-y-lan | 13/01/2016 | |
| Ysgol Gynradd Lakeside | Cyncoed | 25/09/2006 | Andrew Gigg |
| Ysgol Arbennig Meadowbank | Ystum Taf | 25/01/2006 | |
| Ysgol Gynradd Oakfield | Trowbridge | 04/03/2015 | |
| Ysgol Gynradd Pen-y-Bryn | Llanrhymni | 12/10/2015 | Paul Stock |
| Ysgol Gynradd Pencaerau | Caerau | 24/09/2014 | |
| Ysgol Gynradd Glyncoed | Pentwyn | 24/09/2015 | |
| Ysgol Gynradd Gwaelod-y-Garth | Pentyrch | 14/03/2016 | |
| Ysgol Gynradd Howardian | Pen-y-lan | 13/01/2016 | |
| Ysgol Gynradd Lakeside | Cyncoed | 25/09/2006 | Andrew Gigg |
| Ysgol Arbennig Meadowbank | Ystum Taf | 25/01/2006 | |
| Ysgol Gynradd Oakfield | Trowbridge | 04/03/2015 | |
| Ysgol Gynradd Pen-y-Bryn | Llanrhymni | 12/10/2015 | Paul Stock |
| Ysgol Gynradd Pencaerau | Caerau | 24/09/2014 | |
| Ysgol Gynradd Peter Lea | Y Tyllgoed | 23/09/2015 | Louise Bassett |
| Ysgol Gynradd Rhiwbeina | Rhiwbeina | 02/09/2015 | Sue Powell |
| Ysgol Gynradd Gatholig Sant Ioan | Trowbridge | 30/01/2013 | |
| Ysgol Gynradd Gatholig Sant Ffransis | Trelái | 23/03/2016 | Irene Humphreys |
| Ysgol Gynradd Draenen Pen-y-graig | Llanisien | 22/06/2015 | |
| Ysgol Gynradd Trelái | Caerau | 11/12/2015 | Alan Smith |
| Ysgol Gynradd Trowbridge | Trowbridge | 11/02/2016 | Nicola Campbell |
| Ysgol Gynradd Windsor Clive 2 swydd wag | Trelái | 05/09/2015<br>23/03/2016 | Irene Humphreys |
| Ysgol Glan Morfa | Sblot | 29/01/2014 | |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Bro | Pen-y-lan | 27/01/2016 | |

| Ysgol | Ward | Dechrau'r Swydd | Cymeradwyo'r Cais |
|---|---|---|---|
| Edern | | | |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Coed-y-Gof | Y Tyllgoed | 22/10/2015 | |
| Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd 3 swydd wag | Yr Eglwys Newydd | 18/06/2015 21/11/2015 17/07/2015 | Rhys Taylor |
| Ysgol Gymraeg Treganna | Treganna | 30/01/2016 | Thomas Evan Morgan |
| Ysgol Mynydd Bychan | Gabalfa | 16/12/2015 | |
| Ysgol Pen y Pil | Trowbridge | 11/09/2013 | |
| Ysgol Pencae | Llandaf | 21/10/2015 | |
| Ysgol Pwll Coch | Treganna | 27/01/2016 | |
| Ysgol y Berllan Deg | Pentwyn | 29/02/2016 | |
| Ysgol y Wern | Llanisien | 18/04/2016 | Margaret Kemp |

(b) Swyddi Gwag i Ddod ar gyfer Llywodraethwyr AII – 31 Mai tan 30 Medi 2016

| Ysgol | Ward | Dechrau'r Swydd | Cymeradwyo'r Cais |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Albany | Plasnewydd | 21/09/2016 | Mark Stephens |
| Ysgol Gynradd Llwynbedw | Y Mynydd Bychan | 22/06/2016 | Y Cyng. Graham Hinchey |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Bishop Childs | Trowbridge | 25/09/2016 | Mr Richard Leyshon |
| Ysgol Gynradd Bryn Deri | Radur | 21/09/2016 | Margaret Lloyd |
| Ysgol Uwchradd Cantonian 2 swydd wag | Y Tyllgoed | 27/06/2016 21/09/2016 | Susan Watts Y Cyng. Paul Mitchell |
| Ysgol Uwchradd Cathays 2 swydd wag | Gabalfa | 21/07/2016 25/09/2016 | Mr Peter Wong |
| Ysgol Uwchradd Caerdydd 3 swydd wag | Cyncoed | 19/07/2016 19/07/2016 21/09/2016 | Nonny Mathewson |
| Ysgol Gynradd Gatholig Crist y Brenin | Llanisien | 20/07/2016 | Lydia Haskey |
| Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi | Llys-faen | 28/09/2016 | Marcia Donovan |
| Ysgol Gynradd y Tyllgoed | Y Tyllgoed | 28/09/2016 | Mrs Jacqueline Turnbull |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd Fitzalan<br>2 swydd wag | Treganna | 21/09/2016<br>19/07/2016 | Y Cyng. Patel<br>Jaswant Singh |
| Ysgol Gynradd Gladstone | Cathays | 22/06/2016 | Y Cyng. Weaver |
| Ysgol Gynradd Grangetown | Grangetown | 19/07/2016 | Y Cyng. Chris Lomax |
| Ysgol Greenhill<br>2 swydd wag | Rhiwbeina | 28/09/2016<br>28/09/2016 | |
| Ysgol Gynradd Hawthorn<br>2 swydd wag | Ystum Taf | 28/09/2016<br>28/09/2016 | |
| Ysgol Gynradd Hywel Dda<br>2 swydd wag | Trelái | 01/09/2016<br>20/07/2016 | Y Cyng. James Murphy<br>Susan Jones |
| Ysgol Gynradd Lansdowne | Treganna | 28/09/2016 | Y Cyng. Darren Williams |
| Ysgol Gynradd Llanisien Fach | Rhiwbeina | 20/07/2016 | Y Cyng. Eleanor Sanders |
| Ysgol Gynradd Llys-faen<br>2 swydd wag | Llys-faen | 28/09/2016<br>28/09/2016 | Y Cyng. David Walker<br>Susan Powell |
| Ysgol Uwchradd Mair Ddihalog | Caerau | 28/09/2016 | Sally Power |
| Ysgol Arbennig Meadowbank | Ystum Taf | 28/09/2016 | David Melding |
| Ysgol Gynradd Millbank | Caerau | 20/07/2016<br>21/09/2016 | <br>Diane Leigh |
| Ysgol Gynradd Moorland | Sblot | 26/09/2016 | |
| Ysgol Gynradd Mount Stuart<br>2 swydd wag | Butetown | 22/06/2016<br>21/09/2016 | Ivor Gittens<br>Derek Walker |
| Ysgol Gynradd Parc Ninian | Grangetown | 21/06/2016 | Y Cyng. Ashley Govier |
| Ysgol Gynradd Pentre-baen | Y Tyllgoed | 27/06/2016 | |
| Ysgol Gynradd Peter Lea | Y Tyllgoed | 27/06/2016 | |
| Ysgol Uwchradd Gyfun Radur | Radur | 21/09/2016 | Davic Silver |
| Ysgol Gynradd Radur | Radur | 21/09/2016 | Y Cyng Rod McKerlich |
| Ysgol Gynradd Rhydypenau | Cyncoed | 21/09/2016 | Nonny Mathewson |
| Ysgol Gynradd y Rhath<br>2 swydd wag | Plasnewydd | 26/09/2016<br>21/09/2016 | Y Cyng. Sue Lent<br>Shavannah Taj |
| Ysgol Gynradd Tredelerch | Tredelerch | 01/09/2016 | Y Cyng. Bob |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2 swydd wag | | 01/09/2016 | Derbyshire<br>Caroline<br>Derbyshire |
| Ysgol Gynradd Gatholig St Cadog | Llanrhymni | 21/09/2016 | Y Cyng. Jaqueline Parry |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru  Dewi Sant | Pentwyn | 26/09/2016 | Y Cyng. Paul Chaundry |
| Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff (Caerdydd) | Gabalfa | 28/09/2016 | Simon Lawrence |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru'r Forwyn Fair | Butetown | 22/06/2016 | Y Cyng. Ali Ahmed |
| Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair | Glan-yr-afon | 22/06/2016 | Louisa Devonish |
| Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Llaneirwg | Llanrhymni | 21/09/2016 | Idris Meurig Thomas |
| Ysgol Gynradd Gatholig Sant Philip Evans | Pentwyn | 21/09/2016 | Y Cyng. Paul Chaundry |
| Ysgol The Hollies (Pentwyn) | Pentwyn | 26/09/2016 | |
| Ysgol Gynradd Tongwynlais<br>2 swydd wag | Yr Eglwys Newydd | 26/09/2016<br>28/09/2016 | Kathy Haggarty<br>Y Cyng. Ben Thomas |
| Ysgol Gynradd Ton yr Ywen | Y Mynydd Bychan | 22/06/2016 | Y Cyng. Graham Hinchey |
| Ysgol Gynradd Treláі | Caerau | 22/06/2016 | Y Cyng. Elaine Simmons |
| Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd (Ysgol Sefydledig) | Yr Eglwys Newydd | 11/09/2016 | |
| Ysgol Uwchradd Willows | Sblot | 22/06/2016 | Y Cyng. Huw Thomas |
| Ysgol Glan Morfa | Sblot | 22/06/2016 | Y Cyng. Huw Thomas |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern<br>4 swydd wag | Pen-y-lan | 28/09/2016<br>28/09/2016<br>28/09/2016<br>28/09/2016 | Elinor Patchell<br>Hefin Jones<br>Alison Gale |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf | Ystum Taf | 21/09/2016 | Elinor Patchell |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr<br>2 swydd wag | Y Tyllgoed | 26/09/2016<br>26/09/2016 | Arun Midha |
| Ysgol Pen y Groes<br>3 swydd wag | Pentwyn | 28/09/2016<br>28/09/2016<br>28/09/2016 | Mike Landers |
| Ysgol y Berllan Deg | Pentwyn | 21/09/2016 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol y Wern | Llanisien | 25/09/2016 | |

16 : GORCHYMYN AWDURDODAU :LEOL (COD YMDDYGIAD MODEL) (CYMRU) (DIWYGIAD) 2016 – MABWYSIADU COD YMDDYGIAD NEWYDD I AELODAU.

Dywedwyd wrth y Cyngor am addasiadau bychain i'r Cod Ymddygiad Model ac agweddau eraill y fframwaith moesau a'i cyflwynwyd gan ddeddfwriaeth newydd; ac am gymeradwyo adolygiadau sy'n cyd-fynd â hynny ar God Ymddygiad Aelodau'r Cyngor.

Roedd is-ddeddfwriaeth newydd wedi ei chyflwyno, a bwriad hynny oedd cefnogi'r gwelliannau a'u cynigiwyd i'r fframwaith moesau a'i disgrifiwyd ym Mhapur Gwyn 2012 ac a'i cyflwynwyd gan Ddeddf 2013. Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn cynnwys dau offeryn statudol newydd: Gorchymyn (Addasu) (Cod Ymddygiad Model) Awdurdodau Lleol (Cymru) 2016 a (Addasiadau) Rheoliadau (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Goruchwyliaeth) Llywodraeth Leol (Cymru) 2016 a ddaeth i rym ill dau, ar 1 Ebrill 2016.

Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn cyflwyno newidiadau technegol a chanlyniadol i'r Cod Ymddygiad Model ac is-ddeddfwriaeth arall er mwyn egluro rhai testunau trafod a rhoi cysondeb o ran y newidiadau a'u cyflwynwyd gan Ddeddf 2013. Nodwyd effaith y newidiadau a wnaed i'r Cod Ymddygiad Model yn Atodiad A yr adroddiad.

Cynigodd y Cynghorydd De'Ath yr adroddiad ac ategwyd hynny gan y Cynghorydd Hunt.

PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn

1. Nodi'r newidiadau a wnaed i'r Cod Ymddygiad Model ac agweddau eraill y fframwaith moeseg statudol fel y disgrifid yn yr adroddiad;

2. Cymeradwyo addasu Cod Ymddygad yr Aelodau yn unol â'r Cod Model diwygiedig, fel y disgrifir yn Atodiad A; a

3. Roi awdurdod i'r Swyddog Monitro Dros Dro ddirprwyo er mwyn:

   (i) cyhoeddi'r newidiadau i God Ymddygiad yr Aelodau, yn ôl gofynion y gyfraith (ac a'u disgrifir ym mharagraff 1 yr adroddiad); a
   (ii) gwneud yr addasiadau angenrheidiol i Erthygl 9 y Cyfansoddiad (Pwyllgor Safonau a Moeseg) fel y disgrifir ym mharagraff 15 yr adroddiad.

17 : ATODLEN CYDNABYDDIAETH AELODAU 2016/17

Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion lefelau cyflog a lwfansau'r Aelodau sy'n daladwy yn 2016/17 fel y pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac yn cadarnhau pa faterion sydd i'w penderfynu gan y Cyngor.

Ar gyfer 2016/17, wedi ystyried cyngor a gwybodaeth gymharol gan arbenigwr Prydeinig ar dâl aelodau etholedig, penderfynodd y Panel beidio â chodi'r cyflogau sylfaenol na'r rhai uwch oherwydd y cyfyngiadau parhaus sydd ar wariant llywodraeth leol.

Er bod y Panel wedi penderfynu peidio â chodi'r Cyflogau Uwch yn 2016/17, mae wedi gwneud newidiadau i Gyflogau Uwch Band 2 a 3 er mwyn cynnig cyfleoedd gwell ar gyfer hyblygrwydd ar lefel leol i gyd-fynd â newidiadau i strwythurau llywodraethol prif gynghorau. Mae'r Panel wedi cyflwyno dau lefel cyflog ar gyfer Aelodau'r Cabinet (ac eithrio Arweinwyr ac Is Arweinwyr) a Chadeiryddion y Pwyllgorau'r prif gynghorau (os ydynt yn derbyn tâl) er mwyn iddynt ystyried y gwahaniaethau yn y cyfrifoldebau y gellir eu rhoi i swyddi penodol. Dewis pob cyngor ar wahân yw pa lefel cyflog y mae'n ei thalu, yn ôl yr amgylchiadau lleol. Mae'r un egwyddor yn berthnasol i Gadeiryddion Pwyllgorau.

Mae'n fater i awdurdodau unigol benderfynu sut mae rhoi'r penderfyniadau ar Gyflogau Uwch ar waith o fewn eu strwythurau Cabinet unigol. Yn 2016/17, cynigir y dylid gosod Cyflog Uwch Band 2, sy'n daladwy i holl Aelodau'r Cabinet (ac eithrio'r Arweinydd a'r Is Arweinydd) yn unol â thâl Lefel 1 (£32,000) fel y gosodwyd gan y panel sy'n berthnasol i'r Cyngor (h.y. Grŵp poblogaeth A). Byddai hyn yn cyd-fynd yn fras â'r Lwfansau Sylfaenol ac Arbennig y mae dinasoedd eraill megis Bryste, Manceinion a Nottingham yn talu Aelodau Cabinet, yn ogystal â thâl Lefel 1 y cytunodd Cyngor Abertawe (prif gyngor yn Grŵp A) ei dalu yn ei Gyfarfod Blynyddol ar 19 Mai 2016. Byddai hefyd yn cadw Cyflog Uwch Band 2 yn 2016 ar yr un lefel ag y bu ers 2014/15.

Mater ar gyfer awdurdodau unigol yw penderfynu ar ba lefel y telir Cadeirydd er mwyn cyd-fynd â'r cyfrifoldeb perthnasol i'r swydd. Ar gyfer 2016/17, cynigir y dylid gosod Cyflog Uwch Band 3 sy'n daladwy i Gadeiryddion Pwyllgorau, yn unol â thâl Lefel 1 (£22,000) fel y gosodwyd gan y Panel. Eto, byddai hyn yn cyd-fynd â thâl Lefel 1 y cytunodd Cyngor Abertawe (prif gyngor yn Grŵp A) ei dalu yn ei Gyfarfod Blynyddol ar 19 Mai 2016 a byddai hefyd yn cadw Cyflog Uwch Band 3 yn 2016/17 ar yr un lefel ag y bu ers 2014/15.

Mae lefel y Cyflog Uwch a osodir gan y Panel gan gynnwys Cyflog Sylfaenol ac ni ddylai'r Awdurdodau dalu mwy nag un Cyflog Uwch i Aelodau.

Cynigodd y Cynghorydd De'Ath yr argymhellion fel y disgrifir yn yr adroddiad ac fe'u hategwyd gan y Cynghorydd Hunt.

Cafwyd cais i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ystyried materion sy'n cyfrannu at fethiant Cynghorwyr i hawlio am lwfans gofal dilys ac yn arbennig oherwydd y buasai sicrhau bod y fath lwfans ar gael yn gwella ac yn annog amrywiaeth eang o Gynghorwyr.

PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn

(1) nodi penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Daliadau Cydnabyddiaeth o ran y lefelau tâl a gyflwynwyd ar gyfer cyflogau a lwfansau'r Aelodau yn 2016/17, fel y disgrifir yn yr adroddiad;

(2) cytuno i osod Cyflog Uwch Band 2, sy'n daladwy i holl Aelodau'r Cabinet (ac eithrio'r Arweinydd a'r Is Arweinydd) yn 2016/17 yn unol â thâl Lefel 1 (£32,000) fel y gosodwyd gan y panel sy'n berthnasol i'r Cyngor;

(3) cytuno y dylid gosod Cyflog Uwch Band 2016/17 sy'n daladwy i Gadeiryddion Pwyllgorau yn 2016/17 yn unol â thâl Lefel 1 (£22,000) fel y gosodwyd gan y Panel.

(4) cytuno cadw'r dyraniad presennol o uchafswm o 19 swydd Cyflog Uwch ar gyfer 2016/17, fel y disgrifir ym mharagraff 16 yr adroddiad;

(5) cytuno i osod y Cyflog Dinesig sy'n daladwy yn 2016/17 ar gyfer swyddi'r Pennaeth Dinesig/Arglwydd Faer (£24,000) a'r Dirprwy Bennaeth Dinesig/Dirprwy Arglwydd Faer (£18,000) ac yn unol â thaliadau Lefel 1 a ddisgrifir gan y Panel; a

(6) chytuno y dylid parhau i osod uchafswm tâl gwerth 10 diwrnod llawn y flwyddyn ar gyfer ffioedd Aelodau wedi eu Cyd-ethol.

## 18 : RHAGLEN CYFARFODYDD Y CYNGOR, Y CABINET A PHWYLLGORAU 2016/17

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo rhaglen dros dro ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor, Cabinet a'r Pwyllgorau o fis Mehefin tan fis Awst 2016. Cyflwynid Calendr Cyfarfodydd ar gyfer 2016/17 i'r Cyngor ym mis Mehefin.

PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn

(1) cymeradwyo rhaglen ddiweddaraf cyfarfodydd y Cyngor a'r Cabinet ar gyfer mis Mehefin 2016 – mis Awst 2016;

(2) cadarnhau bod dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor Llawn o fis Mehefin 2016 tan fis Mai 2017 fel y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod y Cyngor ar 29 Ionawr 2015;

(3) yn cyflwyno rhaglen lawn o holl gyfarfodydd y Cyngor, Cabinet a'r Pwyllgorau yng nghyfarfod y Cyngor ar 30 Mehefin 2016 er mwyn ei gymeradwyo.

## 19 : PENDERFYNIAD BRYS AR YSGOL UWCHRADD WOODLANDS

Yn unol â Rheol 13(a) Gweithdrefn Graffu'r Cyngor, rhoddwyd gwybod i'r Cyngor am benderfyniad brys a wnaed o ran Ysgol Uwchradd Woodlands, er gwybodaeth.

PENDERFYNWYD y derbynnir yr adroddiad er gwybodaeth.

## 20 : MATERION BRYS (OS O GWBL)

*(Cadarnhaodd yr Arglwydd Faer, fel Cadeirydd y Cyngor, y dylid mynd i'r afael â'r mater hwn dan Faterion Brys er mwyn i'r Cyngor allu gwneud penderfyniad yn unol ag Adran 86 (1) Deddf Llywodraeth Leol 1972).*

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo cais gan y Cynghorydd Mohammad Javed yn gofyn am estyniad ar y rheol chwe mis ar gyfer presenoldeb Cynghorwyr. Doedd e ddim wedi gallu mynd i gyfarfodydd y Cyngor na'r Pwyllgorau ers 3 Rhagfyr oherwydd ei fod yn derbyn triniaeth feddygol estynedig. Roedd angen trafod y mater hwn cyn diwedd y cyfnod o chwe mis perthnasol, a ddeuai i ben ar 2 Mehefin 2016.

PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn

1. derbyn ac yn ystyried y cais am gymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Mohammad Javed yn unol ag Adran 85 (1) Deddf Llywodraeth Leol 1972 ar sail ei iechyd gwael a gwellhad parhaus;

2. cymeradwyo estyniad amser o chwe mis pellach a ddeuai i ben ddydd Iau 1 Rhagfyr 2016;

3. ysgrifennu ar ran yr Aelodau, ar ran Cadeirydd y Cyngor, at y Cynghorydd Javed er mwyn dymuno'n dda iddo tra mae'n derbyn triniaeth.

*(Daeth y cyfarfod i ben am 18.15)*

Cadeirydd: ____________________

Dyddiad: ____________________